**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar STEMM

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Cyfarfod am 17.30, dydd Mawrth 7 Tachwedd 2017, Ystafell Gynadledda B, Tŷ Hywel

COFNODION

**Yn bresennol:**
David Rees AC (cadeirydd), Mark Isherwood AC; yr Athro Roger Whitaker, Dr Robert Hoyle, a'r aelodau allanol a ganlyn: Lesley Kirkpatrick, yr Athro Faron Moller, yr Athro John Tucker, Keith Jones, Dr Stephen Benn, Dr Paul Hutchings, yr Athro Tom Crick MBE, Wendy Sadler MBE, Cerian Angharad, Dr Stewart Ayres, Dave Jones, Rhys Phillips, a Leigh Jeffes.

**Croeso**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan gynnwys siaradwr gwadd, yr Athro Roger Whitaker.

**Ethol Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar STEMM**
Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill. Etholwyd David Rees AC yn Gadeirydd.

**Ethol dau Is-gadeiryddion i'r Grŵp Trawsbleidiol ar STEMM**
Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill ac felly etholwyd Nick Ramsay AC a Simon Thomas AC yn Is-gadeiryddion.

**Ethol Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol ar STEMM**
Ail-etholwyd Leigh Jeffes, ar ran y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, yn Ysgrifennydd.

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016/2017**
Yn dilyn cynnig gan yr Athro Tom Crick MBE, a eiliwyd gan Lesley Kirkpatrick, cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Simon Thomas AC, Nick Ramsay AC, Helen Francis, Dr David Cunnah, Bob Cater, Dr Geertje van Keulen, Dr Rob Janes, Andrew Mackenzie, yr Athro Peter Halligan, a Dr Lucy Meredith.

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2017**
Cymeradwywyd y rhain, a'u llofnodi gan y Cadeirydd fel cofnod cywir.

**Materion yn codi**
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**Pynciau ar gyfer cyfarfodydd yn 2018**
Croesawyd cynnig Dr Paul Hutchings i wneud cyflwyniad ar ddealltwriaeth seicoleg fel pwnc STEM.
Ymhlith y pynciau eraill i'w hystyried ar gyfer rhaglen 2018, roedd materion o ran amrywiaeth, effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ar wyddoniaeth, y Strategaeth Ddiwydiannol, a'r grŵp gorchwyl ar fenywod mewn gwyddoniaeth.

**Cymdeithasau gwyddonol a chyrff proffesiynol - y wybodaeth ddiweddaraf**
Rhoddodd cynrychiolwyr y cymdeithasau gwyddonol ddiweddariad byr ar eu gweithgareddau cyfredol.

**Diweddariad gan Dr Robert Hoyle, Pennaeth Prosiectau Gwyddoniaeth, Llywodraeth Cymru**
Cyflwynodd Dr Hoyle y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau cyfredol, gan gynnwys y broses recriwtio ar gyfer Prif Gynghorydd Gwyddonol, trosglwyddo'r portffolio gwyddoniaeth i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, a'r portffolio Sgiliau i Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Adolygiad Reed ar Arloesi, gweithredu argymhellion Diamond, a'r ddogfen ymgynghori dechnegol sy'n ymwneud ag addysg drydyddol ac ymchwil, sydd i'w gyhoeddi ym mis Ionawr 2018.

**Cyflwyniad: Yr Athro Roger Whitaker, Deon Coleg Ymchwil, Athro Cyfrifiaduron Symudol a Biogymdeithasol, Ysgol Cyfrifiadureg a Gwybodeg, Prifysgol Caerdydd**

Gwnaeth yr Athro Whitaker gyflwyniad ar *'Big Data and its challenges and opportunities for Wales',* ac atebodd gwestiynau gan aelodau. Diolchodd y Cadeirydd i Roger am ei gyflwyniad.

**Unrhyw fater arall**

Nid hysbyswyd y Cadeirydd o unrhyw fater arall.

**Dyddiadau cyfarfodydd 2018**

Dydd Mawrth 6 Mawrth
Dydd Mawrth 3 Gorffennaf
Dydd Mawrth 6 Tachwedd (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol)

**Cloi'r cyfarfod**

Gan nad oedd unrhyw fater arall, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 19.00.